

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 927 (Cy. 153)

**YR AMGYLCHEDD
HANESYDDOL, CYMRU**

**Rheoliadau Adeiladau Rhestredig
(Adeiladau Crefyddol Esempt)
(Cymru) 2024**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023"). Mae Deddf 2023 yn ffurfio rhan o god o gyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ffurfio rhan o'r Cod hwnnw.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ynghylch adeiladau crefyddol sy'n esempt rhag rhai o ddarpariaethau Deddf 2023 sy'n gymwys i adeiladau rhestredig.

Mae Deddf 2023 yn gwarchod adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a all gynnwys adeiladau neu strwythurau. Mae Deddf 2023 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gynnal rhestr o adeiladau o'r fath yng Nghymru. Ni chaniateir i fathau penodol o waith gael eu cyflawni i "adeilad rhestredig" oni bai bod y gwaith wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod cynllunio neu gan Weinidogion Cymru. Mae cyfyngiadau eraill ar ymdrin ag adeiladau cofrestredig.

Mae rheoliad 2 yn darparu bod adeiladau crefyddol penodol a ddefnyddir at ddibenion crefyddol yn "adeiladau crefyddol esempt" ac nad yw'r darpariaethau ynghylch adeiladau cofrestredig a nodir yn adran 156 o Ddeddf 2023 yn gymwys iddynt. Mae'r darpariaethau hynny yn ymwneud â rhestru adeilad dros dro, y gofyniad i waith sy'n effeithio ar adeilad rhestredig gael ei awdurdodi, y drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig yn fwriadol, caffael adeilad rhestredig yn orfodol a gwaith brys i ddiogelu adeilad rhestredig.

Mae rheoliad 3 yn dirymu Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 927 (Cy. 153)

**YR AMGYLCHEDD
HANESYDDOL, CYMRU**

**Rheoliadau Adeiladau Rhestredig
(Adeiladau Crefyddol Esempt)
(Cymru) 2024**

Gwnaed 9 Medi 2024

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 11 Medi 2024

Yn dod i rym 4 Tachwedd 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 156(1), (3)(a) ac (c), 209(2) a 211(3)(a) a (4) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, dod i rym a chod

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Tachwedd 2024.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn ffurfio rhan o god o gyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru(2).

Adeiladau crefyddol esempt

2.—(1) Mae'r adeiladau a ganlyn yn adeiladau crefyddol esempt at ddibenion adran 156 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023—

(1) 2023 dsc 3.

(2) Gweler paragraffau 8 i 10 o'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2023, sydd i'w gweld yn <https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/3/notes/division/3/welsh>.

- (a) adeiladau eglwys yr Eglwys yng Nghymru sydd wedi eu breinio yng Nghorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru neu unrhyw gorff cynrychiolwyr arall a ymgorfforir o dan adran 13(2) o Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru 1914⁽¹⁾;
- (b) adeiladau eglwys sy'n cael eu dal mewn ymddiriedolaeth gan ymddiriedolwyr esgobaethol un o esgobaethau'r Eglwys Gatholig;
- (c) adeiladau eglwys sy'n eiddo i'r Eglwys Fethodistaidd, neu unrhyw sefydliad cyfundebol neu leol i'r Eglwys Fethodistaidd, neu sy'n cael eu dal mewn ymddiriedolaeth ar ei chyfer neu ar ei gyfer, neu at ei dibenion neu at ei ddibenion;
- (d) adeiladau eglwys sy'n eiddo i eglwys sy'n aelod o Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr neu Undeb Bedyddwyr Cymru, neu sy'n cael eu dal mewn ymddiriedolaeth ar ei chyfer gan naill ai—
 - (i) the Baptist Union Corporation Limited (pa un ai'n unigol neu ar y cyd â pherson arall), neu
 - (ii) the Welsh Baptist Union Corporation Limited (pa un ai'n unigol neu ar y cyd â pherson arall);
- (e) adeiladau eglwys o fewn awdurdodaeth hawlebau Eglwys Loegr.

(2) Nid yw'r adeiladau ym mharagraff (1)(a) i (d) yn adeiladau crefyddol esempt ond mewn perthynas â gwaith a gynhelir—

- (a) gan neu ar ran corff eglwysig, neu ran gyfansoddol o gorff eglwysig, y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw, neu
- (b) pan fo'r adeilad eglwys ar unrhyw fangre sy'n ffurfio rhan o brifysgol, coleg, ysgol, ysbyty neu sefydliad cyhoeddus neu sefydliad elusennol, gan neu ar ran corff llywodraethu neu ymddiriedolwyr y sefydliad hwnnw.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) mae adeilad yn adeilad eglwys os yw'n cael ei ddefnyddio'n bennaf fel man addoli;
- (b) mae “adeilad crefyddol esempt” i'w ddehongli yn unol ag adran 156 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023;

(1) 1914 p. 91. Diwygiwyd adran 13(2) gan adran 48(2) o Ddeddf Elusennau 1960 (p. 58) a Rhan 2 o Atodlen 7 iddi.

- (c) ystyr “Eglwys Fethodistaidd” yw’r Eglwys Unedig neu’r enwad a ffurfiwyd o dan Ddeddf Uno’r Eglwys Fethodistaidd 1929⁽¹⁾.

⁽¹⁾ 1929 p. lix.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018⁽¹⁾ wedi ei ddirymu.

Jane Hutt

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder
Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip, un o
Weinidogion Cymru
9 Medi 2024

⁽¹⁾ O.S. 2018/1087 (Cy. 227).